MAE'R YMATEB HWN HEFYD AR GAEL YN SAESNEG

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

**Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i:**

**Hil a Phlismona – Adolygiad o arweinyddiaeth a threfniadau llywodraethu'r gwasanaeth heddlu ar gyfer materion sy'n ymwneud â hil**

**Hil a Phlismona: Archwiliad o wahaniaethu ar sail hil ym mhenderfyniadau cyfiawnder troseddol yr heddlu**

Rwy'n cydnabod yr argymhellion a amlinellir yn y ddau adroddiad a byddaf yn monitro cynnydd yr Heddlu o ran eu gweithredu. Trafodwyd ymateb yr Heddlu i'r archwiliad hwn mewn cyfarfod o'm Bwrdd Plismona ar 3 Hydref 2023.

Isod, yr wyf yn nodi fy meddyliau yn ogystal â sicrwydd yr wyf wedi'i dderbyn gan y Prif Gwnstabl mewn perthynas â'r argymhellion o fewn yr adroddiadau sy'n berthnasol i heddluoedd.

**Hil a Phlismona – Adolygiad o arweinyddiaeth a threfniadau llywodraethu'r gwasanaeth heddlu ar gyfer materion sy'n ymwneud â hil**

Er nad oedd unrhyw argymhellion penodol ar gyfer heddluoedd o fewn yr adroddiad cyntaf hwn, hoffwn sylwi ar y gweithgarwch sydd eisoes wedi digwydd a'r hyn sydd ar waith.

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi sefydlu gweithgor Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu a fydd yn hunanasesu gweithrediad yr Heddlu o'r strategaeth ddiwygiedig. Penodwyd Swyddog Cefnogi Cymunedol yr Heddlu (SCCH) penodol i gydlynu Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu a chynllun gweithredu Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol Cymru. Mae gweithgor Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu'n adrodd wrth Fwrdd Cofleidio Amrywiaeth yr Heddlu, sy'n cwrdd bob chwarter. Mae'r Bwrdd hwn yn cael ei gadeirio gan Brif Uwch-arolygydd ac yn dylanwadu ar amcanion cydraddoldeb strategol, gan sicrhau eu bod nhw'n cael eu cyflawni.

Mae Staff o'm swyddfa mewn cysylltiad rheolaidd ag arweinwyr y darn hwn o waith ac yn cynorthwyo â chynhyrchu Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y cyd ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu o 2024 – 2028. Yn ogystal â'r cynllun ei hun, mae fy Mhennaeth Sicrwydd yn trefnu gwaith craffu er mwyn cefnogi'r Heddlu ymhellach â'r gweithgarwch hwn.

Drwy fy Nghynllun Heddlu a Throseddu ar gyfer 2021-2025, yr wyf yn cefnogi ymdrechion ar y cyd i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth, a hyrwyddo cydraddoldeb i bawb drwy feithrin perthnasau da rhwng pobl.

Bydd angen ystyried gwneud hil a phlismona'n flaenoriaeth allweddol wrth ddatblygu'r Cynllun Heddlu a Throseddu nesaf gan Gomisiynydd tymor pedwar.

Dylai holl aelodau staff fy swyddfa i a'r Heddlu ymgymryd â hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Os bydd safon genedlaethol yn cael ei sefydlu,

byddwn yn sicrhau ei bod yn cael ei hymgorffori yn ein cynlluniau hyfforddi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant presennol.

Mae'r Heddlu'n cyflwyno pecyn hyfforddiant undydd ychwanegol newydd y Coleg Plismona mewn perthynas â dalfeydd o fewn eu rhaglen hyfforddiant gloywi sy'n ymwneud â'r ddalfa. Mae'r hyfforddiant wedi'i lunio i helpu swyddogion a staff dalfa i ddeall bregusrwydd yn well a gwneud penderfyniadau da ynghylch carcharorion a allai fod ag anghenion penodol.

Adroddir yn fisol ar ddata gweithlu Dyfed-Powys wrth AHGTAEF. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod bod lle i wella ansawdd y data.

Mae gan yr Heddlu Faes i'w Wella AHGTAEF presennol sy'n nodi bod angen i'r Heddlu wella'r ffordd mae'n cofnodi data cydraddoldeb.

Yr wyf wedi sgwrsio gyda'r Prif Gwnstabl am weithrediad yr Heddlu o'u system rheoli cofnodion newydd, Niche. Mae'r trawsnewid wedi cyflwyno rhai heriau o ran ansawdd data a chofnodi sy'n cael eu datrys gan dîm perfformiad a dadansoddeg yr Heddlu. Yr wyf wedi derbyn sicrwydd bod yr Heddlu'n derbyn bod casglu'r wybodaeth hon yn bwysig ar gyfer deall i ba raddau y mae pob grŵp a warchodir yn cael ei effeithio gan drosedd, sut mae hyn yn wahanol i'r rhai heb nodweddion gwarchodedig, a pha un ai a oes angen ymagwedd wahanol ar gyfer y dioddefwyr hyn. Yr wyf wedi derbyn sicrwydd bod gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu cipio nodweddion gwarchodedig, ac unwaith y bydd Niche wedi'i ymgorffori'n llawn, dylai fod gwelliant ym mhob agwedd o gofnodi troseddau.

**Hil a Phlismona: Archwiliad o wahaniaethu ar sail hil ym mhenderfyniadau cyfiawnder troseddol yr heddlu**

Mae'n dda gennyf fod yr adroddiad hwn wedi cydnabod pwysigrwydd fy rôl i fel Comisiynydd Heddlu a Throseddu mewn llywodraethu a goruchwylio cyfiawnder troseddol drwy ddod ag asiantaethau eraill at ei gilydd drwy'r Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol.

Rwy'n cadeirio Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Dyfed-Powys, sy'n dod ag uwch gynrychiolwyr asiantaethau cyfiawnder troseddol sy'n gweithredu yn ardal Dyfed-Powys at ei gilydd. Diben y Bwrdd yw gwella cyflwyno cyfiawnder a'r gwasanaeth a ddarperir i ddioddefwyr a thystion. Yn 2006, gwrthododd y Llywodraeth ar y pryd argymhelliad gan adolygiad annibynnol i Fyrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol chwarae mwy o ran. Yr wyf yn awyddus i weld cynnydd ar hyn wrth symud ymlaen yn dilyn cynnig AHGTAEF i ailymweld â'r penderfyniad hwn.

Cydnabu yn ystod yr archwiliad bod egin glas o weithgarwch calonogol. Cyfeiriwyd at rai heddluoedd yn cyflwyno eu paneli annibynnol craffu ar ddalfeydd eu hunain er mwyn casglu, dadansoddi a chraffu ar wybodaeth am benderfyniadau

cyfiawnder troseddol pwysig. Mae fy swyddfa'n awyddus i fabwysiadu'r ymagwedd hon ac mae wrthi'n datblygu paneli craffu ar ddalfeydd.

Mae paneli craffu eraill eisoes mewn grym gan fy swyddfa; y panel Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys a'r Panel Sicrhau Ansawdd. Mae Panel Craffu ar Warediadau y Tu Allan i'r Llys Dyfed-Powys yn ystyried ethnigrwydd a rhyw fel rhan o'i ymarferion hap samplu. Tynnwyd sylw at y panel fel arfer gorau mewn adroddiad diweddar gan y Gymdeithas Ynadon: Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys: Addas ar gyfer y diben, neu angen eu diwygio? (Adroddiad 221208 – Gwarediadau y tu allan i'r llys.pdf (magistrates-association.org.uk))

Isod, nodaf fy ymateb i'r argymhellion sy'n benodol ar gyfer prif gwnstabliaid.

**Argymhelliad 6**
**Erbyn 30 Medi 2024, dylai prif gwnstabliaid sicrhau bod heddluoedd yn cynnal dadansoddiad cynhwysfawr o wahaniaethu ar sail hil ym mhenderfyniadau cyfiawnder troseddol yr heddlu. Lle mae'r dadansoddi hwn yn dangos bod pobl o gefndiroedd lleiafrif ethnig yn cael eu heffeithio'n anghymesur, dylai heddluoedd esbonio, neu ddiwygio, eu ffyrdd o weithio.**

Rwy'n cefnogi'r dadansoddiad data hwn yn llawn ac yn mynd ati i annog yr Heddlu i edrych ar  ffordd y mae pobl o wahanol genhedloedd yn cael eu trin o'u pwynt cyswllt cychwynnol hyd ddiwedd y broses o fewn y system Cyfiawnder Troseddol. Mae'r Heddlu'n adeiladu dadansoddi data i mewn i waith gweithgor Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu, gyda'm swyddfa i'n cynnal gwaith craffu annibynnol. Fel enghraifft, mae'r Panel Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys y soniwyd amdano yn gynharach yn edrych ar achosion troseddau casineb yn eu cyfarfod fis Hydref.

Mewn cyfarfod o'm Bwrdd Plismona ym mis Mai 2023, codais y pwnc o Stopio a Chwilio. Holais y Prif Gwnstabl am yr hyn yr oedd y data stopio a chwilio'n dweud wrthym, ac rwyf wedi gofyn am i weithgarwch sicrwydd ychwanegol gael ei gynnal.

Ymatebodd Heddlu Dyfed-Powys i'm cais gan ddweud eu bod nhw'n cydnabod y gall fod yn adeg drawmatig iawn i unigolyn pan mae'n cael ei stopio. Waeth pa un ai a dyna'r tro cyntaf y mae'n dod i gysylltiad â swyddog heddlu, neu mae'r unigolyn o grŵp Lleiafrif Ethnig, cefais fy sicrhau gan Heddlu Dyfed-Powys fod ganddynt strategaethau a phrosesau ar waith i sicrhau bod pawb yn cael ei drin yn deg a pharchus.

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi cadarnhau bod Rhingyll yn adolygu pob cofnod chwilio er mwyn sicrhau ei fod wedi'i gwblhau i'r safon ofynnol a bod y sail a'r pŵer chwilio a ddefnyddiwyd yn gywir. Mae Arolygydd ym mhob ardal blismona leol yn hap samplu cofnodion chwilio sy'n ymwneud â phobl ddu a lleiafrifoedd ethnig yn rheolaidd er mwyn sicrhau nad oes unrhyw anghymesuredd penodol.

Mae cofnodion Stopio a Chwilio hefyd yn cael eu hadolygu gan Banel Sicrhau Ansawdd Dyfed-Powys a'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol. Mae'r ddau grŵp yn cynnwys preswylwyr gwirfoddol. Maent yn rhoi eu hadborth i'r heddlu ar eu canfyddiadau am y ffordd y cynhaliwyd chwiliadau. Mis Medi 2023 oedd y tro diwethaf i'r ddau grŵp adolygu cofnodion. Cyhoeddir canlyniadau eu hadolygiadau ar wefan yr Heddlu neu SCHTh.

## Argymhelliad 8

**Erbyn 30 Medi 2024, dylai prif gwnstabliaid sicrhau bod gwybodaeth o becyn cymorth anghymesuredd cryno'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid sy'n berthnasol i'r ardal heddlu'n cael ei chynnwys yn nadansoddiad yr heddlu o anghyfartaledd cyfiawnder troseddol yr heddlu.**

Deallaf y bydd yr Heddlu'n gofyn am fynediad i'r pecyn cymorth er mwyn cyflawni hyn.

Ar hyn o bryd, gellir rhannu data â phartneriaid CHTh sydd wedi'u rhestru yn y cytundeb rhannu gwybodaeth ar sail 'angen gwybod', er mwyn trafod a mynd i'r afael â'r materion o or-gynrychiolaeth ethnig yn y System Cyfiawnder Troseddol.

Mae cynrychiolydd o'm swyddfa'n mynd i gyfarfodydd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, ac yn ddiweddar, y mae wedi paratoi briffiad imi ar y ffordd y mae'r arf anghymesuredd yn gweithio a pha ddata mae'n cynnwys. Bydd fy swyddfa'n codi anghymesuredd yn holl gyfarfodydd y bwrdd Rheoli Troseddau Ieuenctid fel pwnc i'w drafod. Gofynnwyd i randdeiliaid allweddol yn y cyfarfodydd hyn godi unrhyw faterion anghymesuredd hefyd. Bydd fy swyddfa'n parhau i fonitro'r arf a bydd presenoldeb yr Heddlu yn y cyfarfodydd hyn yn sicrhau eu bod yn derbyn trosolwg cychwynnol o'r data.

Mae Prif Reolwr y Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid yn Sir Gaerfyrddin yn mynychu Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Dyfed-Powys, sy'n cael ei gadeirio gennyf i. Ym mis Medi, cyflwynodd wybodaeth am waith y gwasanaethau ieuenctid yn y rhanbarth, a byddaf yn parhau i geisio'r wybodaeth ddiweddaraf a'i rhoi i bob aelod drwy gydol y flwyddyn.

## Argymhelliad 10

**Erbyn 30 Medi 2024, dylai prif gwnstabliaid sicrhau bod gwaith yn digwydd gyda chymunedau, comisiynwyr heddlu a throseddu ac asiantaethau eraill i sefydlu neu adeiladu ar drefniadau ar gyfer craffu ar anghyfartaledd cyfiawnder troseddol yr heddlu.**

Yr wyf wedi fy sicrhau bod gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd yn yr Heddlu i sefydlu perthynas gyda phartner allanol. Bydd y partner hwn yn helpu i hwyluso digwyddiadau ymgysylltu cymunedol lle bydd trafodaethau am blismona'n cael eu cynnal.

Ers dechrau'r swydd, yr wyf wedi cynnal fy niwrnodau Ymgysylltu Cymunedol fy hun i gadw mewn cysylltiad â'r cymunedau yr wyf yn eu gwasanaethu. Rwy'n ymweld â sefydliadau megis ysgolion, busnesau, grwpiau gwirfoddol, a'r rhai hynny a allai deimlo'n agored i niwed. Mae myfyriwr ar leoliad yn fy swyddfa ar hyn o bryd sy'n nodi grwpiau a dangynrychiolir yn ardal Dyfed-Powys er mwyn blaenoriaethu fy ngweithgarwch ymgysylltu yn y dyfodol.

Fel rhan o Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb ym mis Hydref a byddaf yn cynnal gweminar sy'n cynnwys panel o siaradwyr arbenigol. Bydd hyn yn cynnwys cynrychiolwyr o Heddlu Dyfed-Powys, Canolfan Cymorth Casineb Cymru yn Cymorth i Ddioddefwyr sy'n cefnogi dioddefwyr Troseddau Casineb ledled Cymru, Swyddogion Cydlyniant Cymunedol lleol penodol, ac Arweinydd y Prosiect Cyswllt Ysgolion Cenedlaethol, a fydd yn rhoi mewnwelediadau gwerthfawr a datrysiadau ar gyfer mynd i'r afael â'r pryderon cynyddol o gwmpas Troseddau Casineb.

**Argymhelliad 11**
**Erbyn 30 Medi 2024, dylai prif gwnstabliaid sicrhau bod gwybodaeth am anghyfartaledd o ran cyfiawnder troseddol yn cael ei chyhoeddi ar wefannau heddluoedd, neu fod gwefannau heddluoedd yn rhoi cyswllt clir i wefannau eraill lle y gellir dod o hyd i'r wybodaeth hon. Dylai gwybodaeth sydd wedi'i chyhoeddi gynnwys unrhyw esboniadau ar gyfer anghyfartaledd a nodwyd a chamau gweithredu y bydd heddluoedd yn cymryd er mwyn mynd i'r afael â hyn.**

Mae pob adroddiad o'm Paneli Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys a Sicrhau Ansawdd yn cael eu cyhoeddi ar wefan SCHTh. Mae'r cofnodion o'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Heddlu, ac mae adroddiadau Stopio a Chwilio'n cael eu cyhoeddi ar wefan yr Heddlu'n flynyddol.

Rwy'n cydnabod bod angen i'm swyddfa a'r Heddlu wneud mwy i sicrhau bod gwybodaeth fanylach yn cael ei chyhoeddi mewn ffordd hygyrch. Mae gwefan SCHTh yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd, a byddwn yn ystyried sut i wella mynediad at wybodaeth o'r fath.